



**RTPI Cymru**

mediation of space · making of place  
cyd drefnu gofod · creu cynefin

#  
#  
#  
#  
#  
#  
#  
#  
#  
#

# Blaenoriaethau'r RTPI Cymru ar gyfer Etholiadau 2016 Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Cynllunio yw un o'r dulliau mwyaf effeithiol sydd ar gael i Lywodraeth lunio cymunedau a lleoedd. Mae ganddo gyfrifoldeb go iawn dros gyflawni ar gyfer y gymuned gyfan, heddiw ac yn y dyfodol.**

Nawr, mwy nag erioed o'r blaen, y system gynllunio sy'n llywio'r ffordd rydym yn byw, yn gweithio ac yn ymlacio. Creu lleoedd yw diben cynllunio, mae'n llunio ein pentrefi, ein trefi, ein dinasoedd a'n cefn gwlad ac mae'n hanfodol i les economaidd y genedl.

Mae system gynllunio Cymru wedi ennill parch sylweddol am ei ddull gweithredu. Mae'r ddyletswydd i hybu datblygu cynaliadwy wedi gweithio'n dda i'r system gynllunio yng Nghymru. Mae Polisi Cynllunio Cymru – y fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol canolog – yn ymsefydlu datblygu cynaliadwy mewn gwaith cynllunio, a rhaid i hwn barhau fel ei fan cychwyn.

Ceir oblygiadau i bawb pan aiff pethau'n anghywir o ran cynllunio. Mae system gynllunio dda yn hanfodol i alluogi, ac nid rhwystro, twf economaidd cynaliadwy, lles cymunedol ac amgylchedd iach.

Gan weithio gyda'i gilydd, mae cynrychiolwyr etholedig a chynllunwyr yn ceisio sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng hawliau unigolion ac anghenion y gymuned ehangach. Gall hyn fod yn ddadleuol ar brydiau, ond mae'r system sydd gennym yn rheoli hyn yn effeithiol ac yn ddemocrataidd er lles pawb.

**Mae RTPI Cymru'n cyflwyno deg gofyniad i Bleidiau Cymru ar gyfer tymor nesaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru:**

1. Sefydlu deddfwriaeth newydd a gwneud i'r system a arweinir gan gynllun weithio;
2. Sicrhau bod cartref o ansawdd yn cael ei ddarparu i bawb yng Nghymru sydd angen un;
3. Cydgysylltu polisiau trwy ganolbwyntio ar leoedd;
4. Cefnogi cymunedau i lunio'r manau lle maent yn byw;
5. Sicrhau bod gan awdurdodau cynllunio'r adnoddau sydd eu hangen arnynt;
6. Hybu ansawdd a chryfder canol trefi a dinasoedd;
7. Cyflwyno fframwaith eglur ac integredig ar gyfer ynni;
8. Integreiddio seilwaith a datblygiad yn well;
9. Sicrhau bod yr amgylchedd naturiol yn cael ei ddiogelu a'i wella;
10. Hybu economi tecach a mwy gwydn.

## Gofyniad 1 – Sefydlu deddfwriaeth newydd a gwneud i'r system a arweinir gan gynllun weithio

*Dylai Llywodraeth Cymru'r dyfodol barhau â'r diwygiadau yn Neddf Cynllunio (Cymru), a pharhau i wneud y system a arweinir gan gynllun yng Nghymru weithio a sicrhau bod Awdurdodau Cynllunio Lleol yn rhoi blaenoriaeth i fabwysiadu eu Cynlluniau Datblygu Lleol a'u diweddarau.*

Bydd hyn yn galluogi cynllunwyr a'r system gynllunio i:

- Sefydlu cynlluniau ar gyfer datblygu cynaliadwy hirdymor mewn cymunedau ledled Cymru;
- Darparu mwy o sicrwydd i fuddsoddwyr;
- Canolbwyntio ar gyflenwi gwasanaeth cynllunio cadarnhaol, sy'n eglur o ran ei ofynion.

Derbyniodd Deddf Cynllunio (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ym mis Gorffennaf 2015 ac roedd ei datblygiad yn cynnwys ymgysylltiad helaeth â chymuned cynllunio ehangach Cymru, gan gynnwys y rheini sy'n ei defnyddio. O ystyried cynnwys y Ddeddf, ynghyd â Deddfau a Biliau cysylltiedig eraill, dylai Llywodraeth Cymru'r dyfodol ganolbwyntio ar sefydlu'r mesurau yn hytrach na chyflwyno unrhyw newidiadau newydd. Mae angen sefydlogrwydd i'r system gynllunio gyflawni, a byddai diwygiadau newydd pellach yn rhwystro hyn.

Gellir dadlau y gall newid cyson i'r system darfu ar fuddsoddiad yn y tai a'r swyddi sydd eu hangen ar Gymru a niweidio lles cymunedol. Gall hefyd ddrysu'r cyhoedd a buddsoddwyr. Mae sefydlogrwydd yn hanfodol i sicrhau hyder buddsoddwyr a chymunedau.

Dylai'r system a arweinir gan gynllun yng Nghymru barhau i gael ei chefnogi a'i datblygu. Y system a arweinir gan gynllun sy'n cynnig y ffordd decaf a mwyaf cadarn o gynllunio ar gyfer yr hirdymor. Mae dwy ran o dair o Gynlluniau Datblygu Lleol (CDLI) Cymru wedi eu mabwysiadu erbyn hyn, ac mae rhagor ar fin cael eu cyflwyno neu eu mabwysiadu hyd yn oed; bydd y rhain, ynghyd â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r Cynlluniau Datblygu Strategol, yn cynnig fframwaith cadarn ar gyfer cefnogi amcanion hirdymor Cymru.

## Gofyniad 2: Sicrhau bod cartref o ansawdd yn cael ei ddarparu i bawb yng Nghymru sydd angen un

*Rhaid i Lywodraeth Cymru gyflawni swyddogaeth fwy o ran darparu'r cyflenwad tai, trwy:*

- seilwaith ariannu;
- cyflawni datblygiadau;
- rhoi tir wrth ei gilydd;
- ar lefel ranbarthol, cyfeirio faint o dai sydd angen eu hadeiladu, fel y gall Cynlluniau Datblygu Lleol nodi lleoliadau priodol yn lleol i ddiwallu'r angen;
- gwella canllawiau ar ofynion tai fel y gall Cynlluniau Datblygu Lleol nodi safleoedd digonol mewn lleoliadau addas.

*Dylid datblygu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, a Chynlluniau Datblygu Strategol yn benodol, i gyflawni swyddogaeth bwysig yn y gwaith o gydgyssylltu hyn.*

Bydd hyn yn galluogi cynllunwyr a'r system gynllunio i:

- gynllunio'n fwy effeithiol er mwyn galluogi i dai gael eu darparu lle mae eu hangen;
- cysylltu'r gweledigaethau mewn cynlluniau datblygu â darpariaeth;
- darparu lleoedd o ansawdd, nid tai yn unig.

Fel partner yn ymgyrch Cartrefi i Gymru, rydym yn sefyll gyda sefydliadau cenedlaethol blaenllaw eraill i alw ar Lywodraeth nesaf Cymru i gyhoeddi, yn ei blwyddyn weinyddu gyntaf, cynllun hirdymor uchelgeisiol sy'n nodi sut y bydd yn rhoi terfyn ar yr argyfwng tai yng Nghymru. Rhaid sicrhau mai ei nod yw darparu cartref o ansawdd i bawb yng Nghymru sydd angen un.

Gellir mynd i'r afael â'r argyfwng hwn mewn llawer o ffyrdd. Rhaid i'r rhain gynnwys edrych ar swyddogaeth y stoc gyfredol, ac ystyried sut y gall datblygiadau tai bach a mawr chwarae rhan. Dylai atebion hefyd roi sylw i'r amrywiaeth o dai, fforddiadwyedd, diogelu'r amgylchedd, gwrthsefyll hinsawdd, yr effaith ar yr iaith Gymraeg a newid demograffig. O ystyried natur gymhleth yr argyfwng, nid oes un ateb yn unig. Mae strategaeth gyffredin gan y llywodraeth nesaf yn hanfodol felly.





**RTPI Cymru**

mediation of space · making of place  
cyd drefnu gofod · creu cynefin

### Gofyniad 3: Cydgysylltu polisïau trwy ganolbwyntio ar lleoedd

*Rhaid i Lywodraeth Cymru'r dyfodol ystyried sut y mae ei phenderfyniadau'n effeithio ar lleoedd. Mae angen iddi gael gwared ar ddulliau cul o ariannu, llunio polisïau a darparu. Er mwyn gwneud hyn:*

*Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu swydd Cabinet ar gyfer Lleoedd er mwyn sicrhau bod dulliau'n cefnogi dinasoedd, trefi, pentrefi a chymdogaethau. Bydd alinio cynlluniau datblygu, cynlluniau lles, cynlluniau lleoedd, cynlluniau buddsoddi a seilweithiau'n well yn allweddol i hyn.*

Bydd hyn yn galluogi cynllunwyr a'r system gynllunio i:

- sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn integreiddio ymdrechion i gynorthwyo lle i ddatblygu gyda sut y bydd ei wasanaethau'n cael eu darparu;
- cefnogi buddsoddiad economaidd cynaliadwy;
- cyflawni swyddogaeth bwysig o ran helpu i gyflawni canlyniadau gwell i gymunedau;
- sicrhau cymaint o wariant ataliol â phosibl trwy helpu i integreiddio a mabwysiadu safbwyntiau hirdymor.

Mae angen dull cryfach, mwy integredig o ddefnyddio tir arnom. Mae angen gwybodaeth fwy amserol sy'n sensitif i sefyllfaoedd lleol ar lunwyr polisi i ddeall heriau hirdymor (fel anghydraddoldeb, newid demograffig a gwrthsefyll hinsawdd) er mwyn llywio penderfyniadau effeithiol ar wahanol raddfeydd.

Rhaid i gynllunio gofodol fynd ymhell y tu hwnt i neilltuo tir ar gyfer gwahanol ddefnyddiau. Rhaid iddo roi ystyriaeth lawn i bolisïau eraill a sut y maent yn rhyngweithio, fel trafndiaeth ac iechyd. Yn yr un modd, mae angen i'r polisïau eraill hyn gynnwys dadansoddiad llawer mwy manwl o'r cymunedau y maent yn effeithio arnynt. Mae'r prinder cyffredinol o feddylfryd strategol ac integredig sy'n seiliedig ar lleoedd mewn polisïau yn ddiffyg mawr, ac mae wedi cyfrannu at rai o'r heriau rydym yn eu hwynebu heddiw a'u cymhlethu.

### Gofyniad 4: Cefnogi cymunedau i lunio'r manau lle maent yn byw

*Rhaid i Lywodraeth Cymru gynorthwyo awdurdodau cynllunio, cymunedau a sefydliadau cymunedol i gymryd rhan mewn trafodaethau cynnar ar ddyfodol eu lleoedd fel y gallant ddylanwadu ar gynlluniau a strategaethau newydd.*

*Dylai Llywodraeth Cymru hefyd barhau i gynorthwyo Cymorth Cynllunio Cymru gyda'u cymorth i gymunedau yn y system gynllunio.*

Bydd hyn yn galluogi cynllunwyr a'r system gynllunio i:

- hyrwyddo gweledigaethau lleol a chamau gweithredu lleol ar ddatblygu a gwella lleoedd trwy ymgysylltu;
- gwneud ymgysylltu cymunedol yn ganolog i'r broses gynllunio er mwyn annog trafodaeth gadarnhaol, creu gweledigaethau ac archwilio rhwystrau;
- annog ymgysylltu effeithiol rhwng datblygwyr a chymunedau;
- gweithio gyda gweithwyr amgylchedd adeiledig proffesiynol eraill i gynyddu gallu cymunedol i greu gweledigaethau lleol;
- helpu i godi ymwybyddiaeth o lleoedd a chynllunio drwy'r Cwricwlwm.

Mae angen i Lywodraeth Cymru'r dyfodol gynorthwyo cymunedau i ddylanwadu ar sut y mae eu lleoedd yn datblygu yn y dyfodol.

Mae'r gofyniad hwn yn cefnogi ein Gofyniad 3 - pwyslais ar fannau lleol, a allai ddarparu mecanwaith effeithiol ar gyfer llunio polisïau mwy integredig. Gall cynlluniau lles, fel y'u cyflwynwyd gan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol, fod yn offerynnau pwerus i gyflawni hyn os cânt eu integreiddio â Chynlluniau Datblygu Lleol. Ar lefel arall, gall Cynlluniau Lleoedd ag adnoddau digonol gynnig dull effeithiol o ymgysylltu â chymunedau lleol i gefnogi'r ddarpariaeth o Gynlluniau Datblygu Lleol, sef y fframwaith sefydledig ar gyfer darparu cyfeiriad ar gyfer lle dylai datblygiadau gael eu darparu.

## Gofyniad 5: Sicrhau bod gan awdurdodau cynllunio'r adnoddau sydd eu hangen arnynt

*Rhaid i Lywodraeth Cymru fuddsoddi yn y gwasanaeth cynllunio, gan gynnwys ei darpariaeth ei hun, yr Arolygiaeth Gynllunio a gwasanaethau cymorth hanfodol a ddarperir i faes cynllunio gan Gyfoeth Naturiol Cymru a Chomisiwn Dylunio Cymru. Dylai hefyd ddatblygu system sy'n cymell gwelliant parhaus gan awdurdodau cynllunio lleol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu adnoddau i'w gwasanaethau cynllunio.*

Bydd hyn yn galluogi cynllunwyr a'r system gynllunio i:

- ddarparu fframwaith cadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau am fuddsoddiad;
- gwella perfformiad ymhellach;
- symleiddio prosesau a gweithdrefnau cynllunio, yn enwedig o ran asesiadau effaith a threfniadau cydsyniad;
- gwella gwaith rheoli prosiect cynlluniau datblygu.

Rhaid i Lywodraeth Cymru'r dyfodol gydnabod bod cynllunio'n ffordd bwysig o hybu twf economaidd cynaliadwy. Mae hyn yn golygu ei fod yn dibynnu ar y gwasanaeth cynllunio i feddu ar yr adnoddau sydd eu hangen arno i ddarparu gwasanaeth effeithiol. Yn rhy aml, mae awdurdodau lleol yn methu â gweld y swyddogaeth y mae cynllunio yn ei chyflawni o ran cyflawni ac mae'n wasanaeth sy'n wynebu toriadau di-baid. Mae gwasanaethau cynllunio a datblygu llywodraeth leol wedi dioddef toriadau llywodraeth leol bob blwyddyn ers 2010. Mae hyn yn anhygoel o ystyried bod angen buddsoddiad hanfodol mewn tai, swyddi a gwrthsefyll hinsawdd.

## Gofyniad 6: Hybu ansawdd a chryfder canol trefi a dinasoedd

*Rhaid i Lywodraeth Cymru:*

- sicrhau bod dyletswydd Canol y Dref yn Gyntaf yn cael ei gynnwys mewn Cynlluniau Lles;
- cadw pwyslais Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid ar ganol trefi;
- archwilio dulliau cynllunio mwy hyblyg mewn canol trefi.

Bydd hyn yn galluogi cynllunwyr a'r system gynllunio i:

- gyflawni swyddogaeth gadarnhaol o ran cynorthwyo canol trefi a dinasoedd i ffynnu;
- bod yn fwy creadigol wrth chwilio am ffyrdd o gynorthwyo canol trefi a dinasoedd;
- cydnabod y gall llwyddiant canol trefi a dinasoedd ddibynnu ar eu cysylltiadau â lleoedd eraill ac ar yr hyn sy'n digwydd y tu allan i ganol y dref/dinas.

Mae canol trefi a dinasoedd yn bwysig i fywyd a lles cynaliadwy. Maent yn cynnig canolfannau hygyrch ar gyfer darparu gwasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau cyhoeddus. Maent yn sbardun economaidd pwysig i lawer o ardaloedd.





**RTPI Cymru**

mediation of space · making of place  
cyd drefnu gofod · creu cynefin

## Gofyniad 7: Cyflwyno fframwaith eglur ac integredig ar gyfer ynni

*Rhaid i Lywodraeth Cymru integreiddio ei Strategaeth Ynni Genedlaethol gyda'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol er mwyn darparu sail dystiolaeth a fframwaith polisi eglur ar gyfer penderfyniadau, gan ddarparu penderfyniadau am elfennau gofodol hyn drwy'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r Cynllun Morol Cenedlaethol.*

Bydd hyn yn galluogi cynllunwyr a'r system gynllunio i:

- gysylltu'r drefn cynllunio ar gyfer defnydd tir â'r broses gynllunio forol yn fwy effeithiol ac, yn rhan o hyn, integreiddio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r Cynllun Morol Cenedlaethol yn well;
- cydnabod bod angen ystyried pob agwedd ar ynni, ac ynni adnewyddadwy yn enwedig;
- sefydlu sail dystiolaeth a fframwaith polisi i alluogi awdurdodau cynllunio i wneud penderfyniadau cadarn am ynni.

Mae angen i unrhyw Lywodraeth Cymru'r dyfodol symud tuag at wneud Cymru'n wlad carbon isel. Gall Cynllunio gyflawni swyddogaeth bwysig yn hyn o beth ond rhaid iddo gael ei gynnwys yn gynnar yn y prosesau i helpu i sefydlu'r capasiti i ddarparu prosiectau ynni a mesurau effeithlonrwydd ynni er mwyn iddo weithio'n effeithiol.

Rhaid datganoli caniatâd ynni dros 50MW trwy Fil Cymru er mwyn sicrhau bod trefn un polisi yn cael ei dilyn yng Nghymru.

## Gofyniad 8: Integreiddio seilwaith a datblygiad yn well

*Gan ddefnyddio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a chynlluniau datblygu strategol, rhaid i Lywodraeth Cymru'r dyfodol hyrwyddo cysylltedd a chynnal gwerthusiadau seilwaith er mwyn sicrhau bod buddsoddiad mewn seilwaith a darparu a datblygu gwasanaethau mor effeithiol â phosibl a defnyddio Cytundebau Dinas ac Ardaloedd Menter i gefnogi hyn.*

*Dylai offerynnau ariannol, fel Cytundebau Dinas ac Ardaloedd Menter, gael eu cyfeirio at yr awdurdodau lleol hynny sydd wedi mabwysiadu Cynlluniau Datblygu Lleol ac sydd â'r gallu felly i gyflawni mewn ffordd wedi'i chynllunio a'i chydgysylltu er budd cymunedau a buddsoddwyr.*

Bydd hyn yn galluogi cynllunwyr a'r system gynllunio i:

- integreiddio gwahanol drefnau polisi yn effeithiol i sicrhau eu bod yn cael cymaint o ddylanwad cadarnhaol â phosibl;
- cyfeirio datblygiadau'n fwy effeithiol at leoliadau sydd angen buddsoddiad a chynorthwyo uchelgeisiau datblygu cynaliadwy mewn cyd-destun strategol.

Dylai Llywodraeth Cymru'r dyfodol groesawu cynllunio strategol ac integreiddio seilwaith i gefnogi datblygiadau cyfredol a newydd. Yn aml, ni fydd y mecanweithiau presennol ar gyfer cyfrifo costau a manteision prosiectau seilwaith trafndiaeth mawr yn llwyddo i amgyffred effeithiau posibl go iawn buddsoddiadau o'r fath, ac mae hyn yn arwain at fwlch ariannu rhwng dichonoldeb datblygwyr a'r seilwaith trafndiaeth cynaliadwy a ddylai gael ei roi ar waith ar gyfer datblygiadau mawr. Mewn rhai achosion, mae chwyddiadau i werth tir yn cynnig ffynhonnell ariannu bosibl na fanteisiwyd arni o'r blaen y gellir ei defnyddio i leihau baich cyhoeddus prosiectau o'r fath. Dylid cynllunio prosiectau o'r fath ar y cyd â blaenoriaethau polisi allweddol eraill yn unig, fel datblygiad tai ar raddfa fawr ac addasu oherwydd y newid yn yr hinsawdd, fel bod eu hachosion busnes yn cael eu gwella ac y gellir sicrhau'r canlyniadau polisi eraill gorau posibl.

## Gofyniad 9: Sicrhau bod yr amgylchedd naturiol yn cael ei ddiogelu a'i wella

*Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y system gynllunio'n parhau i gydnabod pwysigrwydd yr amgylchedd naturiol wrth lunio polisiau a hyrwyddo dealltwriaeth o swyddogaeth hanfodol yr amgylchedd o gyfrannu at yr economi a blaenoriaethau cymdeithasol.*

Bydd hyn yn galluogi cynllunwyr a'r system gynllunio i:

- alluogi datblygiadau i weithio mewn cytgod â'r amgylchedd naturiol;
- hyrwyddo datblygiad yn y lle cywir;
- cynllunio ar gyfer mesurau a fydd yn helpu gyda'r gwaith o addasu i'r newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys rheoli'r perygl o lifogydd;
- rhoi hyder i fuddsoddwyr.

Rhaid cefnogi cynlluniau sy'n diogelu amgylcheddau naturiol, ac yn diogelu'r tirweddau a'r lleoedd y byddwn yn eu gwerthfawrogi yn y dyfodol, ar gyfer dyfodol Cymru. Mae amgylchedd Cymru a'i chyfoeth

naturiol yn un o'i chryfderau arbennig, ac yn un o'i manteision economaidd hyd yn oed.

## Gofyniad 10: Hybu economi tecach a mwy gwydn

*Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau system gynllunio ag adnoddau digonol sy'n gallu ymateb i gyfleoedd economaidd sy'n dod â buddion i Gymru, gan gydbwysu effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol.*

Bydd hyn yn galluogi cynllunwyr a'r system gynllunio i:

- ymateb i gynigion buddsoddi yn effeithiol;
- sicrhau'r manteision cadarnhaol hirdymor mwyaf posibl o fuddsoddiad economaidd;
- rhoi hyder i fuddsoddwyr.

Mae system gynllunio gref ac arloesol yn ganolog i economi lwyddiannus, deg a gwydn yng Nghymru, gan roi cyfeiriad eglur i ardaloedd sy'n gallu hwyluso mathau cynaliadwy o ddatblygiad. Dylid cydnabod gwerth economaidd ym mhob rhan o Gymru, ac nid mewn ardaloedd trefol yn unig. Mae ardaloedd gwledig yn cynnig cyfleoedd fel tirweddau gwerthfawr ac adnoddau economaidd sy'n cefnogi twristiaeth, yn ogystal ag adnoddau naturiol fel amaethyddiaeth, coedwigaeth ac adnoddau dŵr.

## Ynglŷn â'r RTPI

Mae'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI) mewn sefyllfa unigryw o ran cynllunio fel corff aelodaeth proffesiynol, elusen a chymdeithas ddysgedig. Mae RTPI Cymru yn cynrychioli'r RTPI yng Nghymru. Mae gennym gyfrifoldeb i hyrwyddo anghenion ymchwil cynllunio gofodol yn y DU, yn Iwerddon ac yn rhyngwladol.

### I gael rhagor o wybodaeth:

Dylid anfon ymholiadau am y cynigion hyn at:

Roisin Willmott, Cyfarwyddwr RTPI Cymru

Ffôn: 029 2047 3923

e-bost: [roisin.willmott@rtpi.org.uk](mailto:roisin.willmott@rtpi.org.uk)